**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Y Cynghorydd Jane Mudd
Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd

11 Mawrth 2024

**Cynnig Cyngor Dinas Casnewydd i drin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig**

Annwyl Jane,

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ymchwiliad gynhwysfawr i wasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal. Yn ystod yr ymchwiliad hwnnw, clywsom y byddai diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010 i gynnwys profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig yn ffordd effeithiol o leihau'r stigma a'r gwahaniaethu y mae llawer o bobl sy'n cael profiad o ofal yn eu hwynebu. Gwnaeth ein hadroddiad argymell y dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i ddiwygio adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ychwanegu 'profiad o fod mewn gofal' fel nodwedd warchodedig.

Yng ngoleuni hyn, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr ym mhenderfyniad diweddar Cyngor Dinas Casnewydd i wneud profiad o fod mewn gofal yn nodwedd warchodedig, gyda'r nod y byddai polisïau a gwasanaethau'n cael eu dylunio i adlewyrchu amgylchiadau penodol pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[1]

I'n helpu i ddeall yn well beth fydd cynnig y Cyngor yn ei olygu i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, byddem yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth y gallwch ei darparu i ni am y canlynol:

- sut, a phryd, y bydd y cynnig a gymeradwywyd gan y Cyngor yn cael ei weithredu;
- y broses ddiwygiedig ar gyfer asesiadau o effaith ar gydraddoldeb;
- y ffyrdd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn llywio ei benderfyniadau;

[1] Cyngor Dinas Casnewydd, '**Agenda, Cyngor - Dydd Mawrth, 23ain Ionawr, 2024 5.00 pm**'

- a ydych yn credu y bydd cynghorau eraill yng Nghymru yn dilyn arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd drwy gymryd camau i roi mwy o gydnabyddiaeth i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrth lunio polisïau a gwasanaethau; ac
- unrhyw beth arall a fyddai, yn eich barn chi, yn ein helpu i ddeall beth mae'r cynnig yn ei olygu i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'n Pwyllgor wrth inni barhau i bwyso am y diwygio gwirioneddol radical y mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ei haeddu.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 30 Ebrill fan bellaf fel y gallwn ni ei ystyried fel rhan o'n gwaith parhaus yn y maes hwn.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English